

# Mari Ellis yn **Clirio Silffoedd**

*'Bydded dy lyfrau, fel dy gyfeillion, yn ychydig a detholedig'*

Llew Tegid a gofnododd y frawddeg yna. Druan ag efl! Go brin y gallai yntau, mwy na minnau, ddweud iddo ddilyn y cyfarwyddyd. Fel y rhan fwyaf o ddarllenwyr *Y Casglwr*, silffoedd yn gwegian o dan bwysau llyfrau sydd gennyf, a llawer ohonynt heb eu hagar ers hydion. Ond, yr wythnos hon, penderfynais fod yn rhaid gwneud rhywbeth, a dechreuais dynnu'r cyfrolau a'r llyfrynau mwyaf di-olwg yn bentwr ar lawr. Dechreuais ddarllen hwnt ac yma, a darganfod - perlau? Wel, ddim yn hollol, ond digon i beri i mi fod eisiau rhannu'r hyn a welais.

Rhigymau'n edliw rhagoriaeth un plwyf ar y llall a ddaliodd fy llygaidd gyntaf:

Yn Llanbryn-mair mae sucen soeg  
Ni fu 'no gwrw da erioed;  
Yn Nhrefglwys gwin a chwrr  
Ac arian da i dalu am hwnnw.

Hwn eto yn yr un darn o wlad:

Mae Llaur y Glyn yn lle o'r gorau  
Ond yn dost am erlid chwedlau;  
Ewch a dowch ddistawaf galloch,  
Yn Llaur'glyn bydd sôn amdanoch.

Os am gardod, ewch i'r ffermydd hyn:

Llwyn y Gog a Nant yr Hafod  
Ydyw'r manau gorau am gardod;  
A'r Felin Newydd gyda hynny  
Sy'n cario clod trwy waelod Cymru.

Disgrifiadol yw'r rhigwm am bentref sydd rhwng Penybont Fawr a Llanfyllin:

Penygarneidd ar y gornel  
Y mae yno siop a chapel,  
Dwy neu dair o siopau seiri,  
Siop y crydd a siop i feddwi.

Mewn cyfrol arall y gwelais y pennill hwn:

Mae dwy adran yn sir Benfro  
Un i'r Sais a'r llall i'r Cymro,  
Melltith Saeson wedi rhannu  
Yr hen sir o bentigili.

Cofiais am y rhigwm efo'r odl wyddelig a adroddai fy nhad:

Mae nhw'n dwedyd yn sir Benfro  
Fod y Sais yn well na'r Cymro,  
Dwedant gelwydd trwy eu dannedd,  
Cymro bach sy'n well o'r hanner.

Aeth rhai o'r penillion ardal yn adnabyddus ar gof gwlad, ac fe'u gwelir mewn casgliadau, e.e.:

Yn Hafod Elwy'r gog ni chàn...  
a Mi af oddi yma i'r Hafod Lom...

a Harddaf man yr wy'n adnabod  
Yn y byd yw Dyffryn Meifod.

Un arall adnabyddus yw'r cwpled:

Tri pheth o Fawddwy a ddaw -  
Dyn cas, nod glas a glaw.

Gallaf gofio fy merch pan oedd hi tua saith oed yn ceisio'i wneud yn fwy derbyniol; dyma'r chynnig:

Tri pheth o Fawddwy a ddaw  
Dyn neis, pwdin reis a baw.

Nid yn aml y deuir ar draws pennill holi ac ateb mor gywrair a hwn; gan un Thomas Roberts o Ddylife:

Robin crwn y cloesiwr ofynai air i'r  
Bardd,  
'Ymhle y mae'r gair capel o fewn i'r  
Sgrythur hardd?'  
Atebai yntau'n union mewn geiriau  
digon teg,

'Y seithfed bennod o Amos, a'r drydedd wers ar ddeg.'

Go brin eich bod mor olau yn eich Beibl fel y medwrch ddyfynnu'r adnod: fel hyn y mae yn yr hen gyfieithiad:

— I roi Callneb i'r Anghall, ac i'r Bachgen Wylbodaeth a Snywyr. —

## DYSGEDYDD Y PLANT

DAN OLYGIAETH

Y Parch. D. Silyn Evans,

ABERDAR.

CYFROL—LL.

DOLGELLAU:

Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan Hughes Bros.

*Dysgedydd y Plant 1921.*

Na chwanega broffwydo yn Bethel mwy: canys capel y brenin a llys y brenin yw.

Ni ddigwydd y cair capel yn y Beibl Cymraeg Newydd; dyma a geir:

Paid a phroffwydo ym Methel eto, gan mai dyma gysegr y brenin a theml y wladwriaeth.

Mae yna lawer o rigymau enllibus, ond gadawn iddynt fod.

\* \* \*

Codi hen gyfrol *'Amryw'* wedyn, a darganfod y pennill hwn mewn rhifyn o *Dysgedydd y Plant* tua 1921:

Hawddach i'r aderyn egwan  
Gario'r Andes yn ei big;  
Llawer haws i'r brithyll bychan  
Lyncu Môr y De mewn dig;  
Hawddach fyddai i'r morgrugyn  
Wthio'r Alps o'i flaen i'r môr  
Nag i ddyfais dyn a diafol  
Ddymchwel gair ein cadarn Iôr.

Dyma ddarn yn nhraddodiad y penillion fflwbr i adroddir wrth blant bach, fel yr un adnabyddus:

Mi welais ddwy lygoden  
Yn cario Pont Llangollen  
Rownd abowt o gylch y ddôl  
Ac yn ei hôl drachefen.

Ac o sôn am fflwbr, beth am y pamffledyn hwn?

Barddoniaeth, sef cân newydd ar yr achlysur o briodas Tywysog Cymru a'r Dywysoges Alexandra o Denmark, Mawrth 10fed 1863 gan W. Roberts, Bardd Berw Penmynydd Môn.

Fe'i cyhoeddir gan H. Humphreys, Caernarfon am ddwy geiniog. Sut ar y ddaear y daeth i'r tŷ yma? Mae lluniau'r pâr priodasol ar y dudalen gyntaf, ac wrth gyfar y darllenwyd dywedir:

'...mae'n amlwg ar unwaith fod ein bardd wedi bod yn hir ddawnsio ar gopa Parnassus... Dyma bryddest yn ddiarnheu a deifl Iliad Homer a Coll Gwynfa Milton i'r cysgodion...'

Hysbysir ni ymhellach fod y bardd '...a'i gefn at ei 60ain oed, ond er hynny mor sionced a sioncyn ei hun'.

Wyth o benillion pedair llinell a geir i ddechrau, yn cyfarch y Tywysog a'i

briodferch ond erbyn y pumed pennill y maent yn y nefoedd,

Ar ôl darfyddo'r fuchedd hon  
Sydd dan yr heulwen oleu gron,  
Boed iddynt byth gael cyd-deyrnasu  
O fewn i'r Nefoedd gyda'r Iesu.

Mae gweddill y penillion, hyd at rhif 70, gydag Atodiad o ddeuddeg pennill yn eu disgrifio yn y Nefoedd! Mae'r cwbl yn gorffennu gyda'r darnau anhygoel a ganlyn, gwaith 'awdwyr parchus', yn ôl y cyhoeddwr.

O doed y Prince i weld Llanberis  
Y goreu man fedd Cymru'n ddewis,  
Lle bu Victoria gynt yn rhodio  
Caiff ef Rel-we ar frys i'w gludo.

Caiff weld y Wyddfa'n rhwygo'r  
wybren

I roi ei glust wrth enau seren!  
A chlywed mellten weithiau'n  
dygwydd

Ffrio taran ar ei ysgwydd.

*Bardd Cudd*

Beth a fyddai'n fwy naturiol  
Nag i D'wysog Cymru freiniol  
Dalu 'mweliad am rai dyddiau  
A thywysog y mynyddau.

*Bardd Rhos*

Wedi treulio cymaint o amser yn lloffa trwy ddau lyfryn ac un gyfrol *'Amryw'*, pa oibaith sydd gennyf o glirio'r silffoedd?

## Ar Werth

Cofiannau - Amryw.  
Rhifynnau cynnar o'r *Traethodydd*, wedi'u rhwymo.  
Cysyllter â (01792) 862162.

\* \* \*

*Gleanings from God's Acre*, Myrddin Fardd.  
*Cantref Meirionydd, ei Chwedlau, ei Hynafiaethau a'i Hanes*, R. Prys Morris.  
*Cerddi Ysgol Llancrwyys*, ynghyd â *Hanes Pwylf Llancrwyys*, Dan Jenkins.  
*Dafydd Dafis*, sef Hunangofiant Ymgeisydd Seneddol, Beriah G. Evans.

Casgliad o nofelau cynnar, clawr papur, rhwng 1855 a 1925:

*Cynwyn Rhys Pregethur* - Elwyn.  
*Irfon Meredydd* c.c. - Elwyn a Watcyn Wyn.

*Croesi'r Bont* - Clwydwenfro.

*Mynd i'r Môr* - Tom Jones.

*Difysrwech Gwyr Morgannwg* - T. Mardy Rees.

*Miriam, Y Berl Rian* - D. O. Davies.

*Un o Blant y Wlad* ac *Oriau yn y Wlad* - Anthropos.

*Toriad y Wawr* - Morris Thomas.

*Llin yn Mygu* - W. J. Davies.

*Siencyn Penhydd* - Ed. Matthews.

Cysyllter â (01248) 361233.

\* \* \*

*Cylchgrawn Hanes Teuluoedd Dyfed*, 1982-1998. Cyfrolau I-V yn gyflawn (45 o gopïau) a'r pump cyntaf o Gyfrol VI. Hefyd *Cyfeirlyfr yr Aelodau*, Rhagfyr 1998. Y cyfan fel newydd.

Cysyllter â (01559) 384839.

\* \* \*

## Hefyd yn Eisiau

*Gaulish Personal Names*, D. Ellis Evans (Rhydychen, 1967).

Cysyllter â (01792) 862162.